Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Rebecca Williams**

**Llandudno**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwarchodwr plant symud tŷ. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn meithrin cydberthnasau cynnes â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad, ac maent yn rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant beth maent am ei wneud yn hyderus. Caiff y plant amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu a chânt gyfleoedd i ddewis ac maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi'n darparu gofal cefnogol a magwrus. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithio'n dda ac yn cefnogi plant unigol mewn modd cynnes a hynod gadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant unigolyn cartrefol, caredig a chyfeillgar ac yn adnabod y plant a'u hanghenion unigol yn dda iawn. Mae'n darparu amrywiaeth dda o weithgareddau y mae'r plant yn eu mwynhau ac yn hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn rhoi ardal olau a llawn lliw i'r plant chwarae ynddi. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau ac adnoddau naturiol sy'n datblygu sgiliau cymdeithasol, corfforol a chreadigol y plant yn effeithiol, ac maent yn cynnig cyfleoedd dysgu da hefyd. Mae'n sicrhau y caiff peryglon a risgiau eu monitro a'u rheoli'n effeithiol
ac yn gwneud defnydd da o'r ardal leol er mwyn darparu profiadau cyfoethogi pellach.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn gymwys iawn. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, gan roi llesiant y plant wrth wraidd popeth a wna. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei darpariaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae dogfennau yn glir ac yn drefnus ac mae'n hawdd dod o hyd iddynt. Mae gwiriadau addasrwydd yn gyfredol hefyd. Caiff y rhieni wybodaeth dda am ddatblygiad eu plant ac mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol iawn â'r rhieni.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn symud yn hyderus o amgylch yr adnoddau a'r gweithgareddau, ac yn gallu dewis drostynt eu hunain am fod popeth yn cael eu storio o fewn eu cyrraedd. Maent yn fodlon dilyn eu diddordebau eu hunain a mynegi'r hyn y maent am ei wneud. Er enghraifft, drwy wenu a phwyntio a defnyddio synnau a geiriau y maent yn eu gwybod yn ogystal â mynegiant wyneb. Mae'r plant yn hapus am fod y gwarchodwr plant yn dangos diddordeb mawr yn yr hyn y maent yn ei ddweud, a phan wnaeth plentyn ystumiau ei fod wedi blino roedd y gwarchodwr plant yn gyflym i'w setlo i gysgu.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo, ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Mae ganddynt gysylltiadau agos gyda'r gwarchodwr plant ac yn meithrin cydberthnasau cynnes.Maent yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn hyderus i sgwrsio. Mae'r plant yn fodlon mynd at y gwarchodwr plant am gysur ac maent yn ymateb yn dda i eiriau cadarnhaol o anogaeth a chanmoliaeth sy'n datrys unrhyw anghytundebau bach yn gyflym. Maent yn setlo i chwarae neu i gael mwythau gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant a gwelsom y plant yn gwenu ac yn chwerthin gyda'r gwarchodwr plant wrth iddynt chwarae.

Mae'r plant yn hyderus gan fod y drefn ddyddiol yn gyfarwydd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel am eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf, fel cinio pan fyddant yn dweud eu bod yn llwglyd. Maent yn chwarae'n fodlon ymysg ei gilydd yn y pwll peli ac mae hyd yn oed y plant ifanc iawn yn dechrau dysgu ystyr cymryd eu tro. Maent yn dangos hoffter o'r gwarchodwr plant a'i theulu ac yn cydweithredu'n dda. Er enghraifft, helpu i dacluso teganau cyn amser cinio. Maent yn ceisio helpu ac yn mwynhau cael mwythau â'r babi. Mae'r plant yn mwynhau cyfnodau tawel hefyd, yn ymlacio yn y lolfa yn edrych allan ar y ffenestr fawr yn gwylio'r byd yn mynd heibio.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, gwelsom y plant yn gwenu ac yn chwerthin yn frwdfrydig pan oedd y ci yn siglo'i gynffon ac yn eu cosi. Mae'r plant yn hyderus ac roeddent yn falch o ddangos eu bag oedd â rêns diogelwch yn sownd. Roedd hyd yn oed eu dangos i ni yn unig yn creu cyffro mawr ac roeddent yn 'neidio yn eu hunfan'.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, helpu i fwydo eu hunain yn hyderus yn ystod amser byrbryd ac amser bwyd. Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu ac maent yn datblygu sgiliau newydd yn dda. Maent yn mwynhau digon o chwarae yn yr awyr agored mewn parciau lleol. Cânt gyfleoedd da i ddatblygu'n gorfforol ac yn gymdeithasol wrth iddynt gerdded bob dydd i'r ysgol leol.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau ieithyddol drwy glywed y gwarchodwr plant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddi ddealltwriaeth glir o'r materion diogelu ac mae'n gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae wedi cael hyfforddiant gorfodol cyfredol gan gynnwys diogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth dda am alergeddau'r plant, gofynion deietegol ac anghenion meddygol. Mae'n cadw cofrestrau cywir o bresenoldeb y plant gan gynnwys y bobl sydd wedi dod â'r plant i'r lleoliad a'u casglu. Mae cytundebau priodol a ffurflenni cofnodion plentyn ar waith ar gyfer y plant gan gynnwys cydsyniadau gan rieni ar gyfer eli haul, anifeiliaid anwes, mynediad at TGCh a chyfarpar chwarae mawr.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'r gofal yn hamddenol, dan arweiniad y plant, gan sicrhau bod llesiant emosiynol y plant yn cael ei feithrin. Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes a charedig, gan roi digon o ganmoliaeth am gyflawniadau bach. Mae'n delio ag unrhyw anawsterau mewn ffordd bwyllog a theg. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn dangos i'r plant iau sut i gynnwys ffrind llai yn eu chwarae ond os nad yw hyn yn gweithio, mae tynnu sylw yn hynod o effeithiol ac mae esboniadau clir a syml yn helpu'r plant i ddeall.

Mae'r gwarchodwr plant yn llawn gwybodaeth am ddatblygiad y plant y mae'n cofnodi yn ei dyddiadur ac yn diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae'n dilyn arferion a dewisiadau unigol y plant ac mae'r rhieni yn cael lefel dda o fanylion am ddiwrnod eu plentyn gan gynnwys lluniau a fideo drwy ap. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau ysgogol a phrofiadau chwarae yn yr ardal i'r plant eu mwynhau ac sy'n cysylltu â'r tymhorau, achlysuron arbennig a mannau o ddiddordeb.  Mae'n sicrhau bod y plant yn brysur ac yn parchu eu holl ddewisiadau, diddordebau a cheisiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud y mwyaf o bob cyfle i ddysgu.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn diwallu anghenion y plant. Caiff y drws ffrynt a'r ystafell amlbwrpas eu cadw ar glo, a chaiff ymwelwyr â'r lleoliad eu cofnodi. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel a bod yr amgylchedd a'r teganau yn lân, mewn cyflwr da ac yn briodol o ran oedran.  Mae'r asesiadau risg yn nodi ac yn rheoli unrhyw beryglon. Fodd bynnag, mae'r rhai ar gyfer y lleoedd yr ymwelir â nhw yn gyffredinol ac nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau gwiriadau diogelwch gweledol am fod gwaith yn cael ei gynnal yn y cartref. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu gweithgareddau. Mae dogfennau ar waith yn barod i'r gwarchodwr plant gynnal ymarfer tân yn ei  chartref, er mwyn i'r plant wybod sut i adael y safle mewn argyfwng.

Mae amgylchedd y cartref yn gynnes, yn gyfforddus, ac yn lân. Mae wedi drefnu'n ddeniadol ac yn darparu ardal olau a llawn lliw i'r plant chwarae ynddi. Maent yn cael budd o awyrgylch tawel, sy'n eu galluogi i ymlacio yn ogystal â chwarae a dysgu. Mae lolfa fawr ar gael i'r plant gyda basgedi o adnoddau o ansawdd da wedi'u storio o fewn cyrraedd hawdd er mwyn i hyd yn oed y plant ieuengaf helpu eu hunain. Mae soffa gyfforddus ar gyfer ymlacio, edrych ar lyfrau a gwrando ar stori am lindys. Caiff yr ystafell fwyta ei ddefnyddio ar gyfer bwyta, chwarae a gweithgareddau celf a chrefft. Mae mynediad i'r ardd, fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn defnyddio 'r ardal hon ar hyn o bryd am fod gwaith adeiladau'n cael ei wneud. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y lle yn groesawgar a bod cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda ac yn rhoi cyfleoedd da i'r plant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth eang o deganau o ansawdd da yn ogystal â rhannau rhydd megis cylchoedd cyrtens pren. Mae'r adnoddau wedi'u trefnu'n dda ac mae llawer ohonynt yn hygyrch i'r plant. Mae digonedd o le storio a chaiff y teganau a'r adnoddau eu cylchdroi’n rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb y plant. Fodd bynnag, os bydd y plant yn mwynhau chwarae gyda thegan penodol, yna caiff ei adael allan ar eu cyfer. Mae cegin chwarae a theganau byd bach yn sicrhau y gall y plant ddilyn eu syniadau a chreu chwarae dychmygol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu lleoedd fel tî-pî lle gall y plant swatio. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys eitemau plastig ac eitemau naturiol sy'n rhoi'r cyfle i'r plant weithio gyda gwahanol weadau ac arwynebau. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu lle i'r plant hongian eu cotiau a'u bagiau ac i roi eu hesgidiau sy'n creu ymdeimlad o berthyn. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn mynd â'r plant i amrywiaeth o fannau o  ddiddordeb bob dydd gan gynnwys grwpiau lleol i blant bach, parciau a'r promenâd er mwyn iddynt allu dysgu am y byd o'u cwmpas a chael hwyl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth mewn modd proffesiynol ac mae ganddiweledigaeth glir ar gyfer ei lleoliad. Mae wedi creu amgylchedd croesawgar 'cartref oddi cartref' ac yn ymrwymedig i gefnogi lefelau uchel o lesiant a chanlyniadau da ar gyfer y plant y mae'n gofalu amdanynt. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu ei lleoliad yn dda. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion yn glir ac yn drefnus, ac mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth a dogfennau. Mae'r polisïau, y gweithdrefnau a'r asesiadau risg gofynnol ar waith ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben ysgrifenedig, gan roi gwybodaeth i'r rhieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod o sefydliad cymorth gwarchod plant. Mae'r sefydliad hwn yn ei helpu i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am ei busnes, ac mae'n defnyddio enghreifftiau o'r ddogfennaeth a ddarperir gan y sefydliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Mae'n adlewyrchu ar ei hymarfer ac yn ymwybodol o'i chryfderau ac wedi cynllunio meysydd i'w gwella fel gwneud mwy o ddefnydd o grwpiau'r eglwys a Ti a Fi.  Mae'n cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd gofal ei lleoliad ac yn rhagweithiol wrth wneud gwelliannau a chadarnhaodd y gwarchodwr plant bod yr argymhellion o'r arolygiad wedi cael eu rhoi ar waith gan ddangos bod y gwarchodwr plant am ddarparu'r gofal gorau posibl ar gyfer y plant a'u teuluoedd.

Mae'r gwarchodwr plant yn gymwys hyd at lefel 5 ac yn brofiadol iawn ym maes datblygiad plant ac mae'n ymrwymedig i'w datblygiad proffesiynol parhaus ei hun. Mae wedi ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol yn rheolaidd er mwyn cynyddu ei sgiliau a'i gwybodaeth fel cadw'n ddiogel ar-lein, cymhwysedd digidol, gosod targedau a chwalu rhwystrau i ddysgu. Mae gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gwarchodwr plant yn gyfredol. Mae ganddi system i sicrhau bod y bobl berthnasol sy'n byw ar y safle wedi cwblhau gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn rhan o'r system ddiweddaru.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cryf iawn gyda'r rhieni ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am eu plant drwy ap ac wedi creu cyflwyniad i'r rhieni am daith ddysgu'r plant. Mae cysylltiadau â gwarchodwyr plant eraill ac maent yn aml yn dod at ei gilydd gyda'u plant sy'n eu galluogi i gymdeithasu ac i gael digonedd o hwyl. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i rannu syniadau ar gyfer arferion gorau. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant am dro yn rheolaidd, i nôl eu brodyr a'u chwiorydd o'r ysgol ac o fannau o ddiddordeb lleol. Mae hyn yn sicrhau y gall y plant ddysgu rhagor am y byd o'u cwmpas ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| | Ni nodwyd unrhyw Argymhellion SGC yn yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/09/2024